



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

## **Yr Adran Materion Gwledig**

Mae gwybodaeth am y cyhoeddiad hwn a chopïau pellach ar gael gan:

Y Tîm Lles Anifeiliaid Fferm  
Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol  
Llywodraeth Cynulliad Cymru

Adeiladau'r Llywodraeth  
Hill House  
Caerfyrddin  
SA31 3BS

Ffôn 01267 225300

E-bost: [livestockwelfare@wales.gsi.gov.uk](mailto:livestockwelfare@wales.gsi.gov.uk)

## NODIADAU CYFARWYDDYD LLES ANIFEILIAID WRTH EU CLUDO

RHEOLIAD (EC) RHIF 1/2005 Y CYNGOR AR DDIOGELU ANIFEILIAID WRTH EU CLUDO A GWEITHREDIADAU CYSYLLTIEDIG Â GORCHYMYN LLES ANIFEILIAID (CLUDO) CYMRU 2007

### FFITRWYDD I DEITHIO

***Dylai pawb sy'n ymwneud â chludo anifeiliaid ddarllen y cyfarwyddyd hwn ar ffitrwydd i deithio.***

#### 1 Cyflwyniad

1.1 Gall teithio beri straen a blinder i anifeiliaid fel i bobl; gwendid cyhyrol, amrywiadau tymheredd, amgylchiadau a synau anghyfarwydd, newid yn y deiet, symud i safle newydd a chymysgu ag anifeiliaid anghyfarwydd - gall pob un o'r rhain fod yn her. Mae'r Rheoliad yn ei gwneud hi'n ofynnol i anifail fod yn ffit ar gyfer y daith arfaethedig cyn ei chychwyn a *rhaid iddo barhau'n ddigon ffit trwy gydol y daith*. Golyga hyn y dylai'r anifail fod yn ddigon iach ar ei chychwyn i oddef y daith ar ei hyd (yn cynnwys llwytho, dadlwytho a thoriadau yn y daith) heb ddim, neu ond ychydig iawn o effaith niweidiol; ni ddylai'r daith achosi dioddefaint nac anaf i'r anifail. Os oes disgwyl i'r daith beri mwy o her - er enghraifft teithiau hir mewn sawl cymal, os rhagwelir tymheredd mwy eithafol neu os yw'r amodau gyrru'n wael - bydd angen i'r anifeiliaid sydd i'w cludo fod yn fwy ffit na phe baent yn mynd ar daith lai anodd.

1.2 Yn nes ymlaen yn yr adran hon o'r cyfarwyddyd, ailadroddir geiriad y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â ffitrwydd i deithio. Nod gweddill y cyfarwyddyd hwn yw helpu cludwyr anifeiliaid i ddeall y gofynion cyfreithiol hyn.

1.3 Rhaid asesu pa mor ffit yw'r anifeiliaid *cyn* cychwyn y daith. Nid oes gofyniad i unrhyw berson penodol wneud yr asesiad hwn. Er hynny, dylai'r person sy'n asesu ffitrwydd fod yn wybodus, yn gyfarwydd â'r anifeiliaid dan sylw ac yn gallu deall, dehongli a defnyddio'r cyfarwyddyd sydd ar gael. Gall fod mai'r ffermwr yw'r person hwn, neu berchennog yr anifail, stocmon, milfeddyg, cludwr neu swyddog gorfodi awdurdod lleol. Mae'n hanfodol fod arwyddion o iechyd, afiechyd a phoen yn cael eu hadnabod. Dylai'r person sy'n asesu ffitrwydd archwilio cyflwr pob anifail sydd i'w gludo drwy arsylwi a, lle bo angen, archwilio'n fwy gofalus, yn union cyn i bob anifail gael ei lwytho ar y cerbyd. *Ym mhob achos, er hynny, gyrrwr y cerbyd neu geidwad yr anifail a fydd yn teithio gyda'r anifail ar y daith fydd â'r gair terfynol a'r cyfrifoldeb dros benderfynu a ddylid cludo anifail ai peidio*. Os oes amheuaeth ynghylch ffitrwydd anifail, dylid gofyn am farn milfeddyg cyn cychwyn teithio. Yn achos rhywogaethau egsotig neu

anarferol, gall arbenigwr cydnabyddedig ar y rhywogaeth dan sylw (er enghraifft o gymdeithas fridio, acwaria neu erddi sŵolegol) roi cyngor. Os oes amheuaeth ynghylch ffitrwydd anifail a dim modd o gael cyngor arbenigol, fe'ch argymhellir i beidio â chludo'r anifail.

1.4 Rhaid asesu ffitrwydd dofednod cyn eu pacio i'r cewyll cludo. Os nad y cludwr sy'n gwneud yr asesiad yma, dylai fod trefniant dogfennol clir i ddynodi pwy sydd â chyfrifoldeb dros wneud y gwaith yma, a pha gamau i'w rhoi ar waith mewn perthynas ag adar y bernir nad ydynt yn ffit i'w cludo. Er hynny, unwaith y bydd yr adar wedi dechrau cael eu llwytho, y cludwr sy'n llwyr gyfrifol am les yr adar hyd nes y cânt eu dadlwytho ar derfyn y daith.

1.5 Mae'r diffiniad o ffitrwydd ychydig yn wahanol bellach yn y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â marchnadoedd a chludo. Mae Gorchymyn Lles Anifeiliaid mewn Marchnadoedd yn gwahardd cyflwyno unrhyw anifail i'r farchnad sy'n glaf, yn dioddef o glefyd, yn sâl, wedi'i anafu neu'n lluddedig. Yn ymarferol, ni fydd unrhyw anifail nad yw'n ffit i'w gludo ychwaith yn ffit i'w gyflwyno i'w werthu mewn marchnad.

## **RHEOLAU TECHNEGOL**

(fel y cyfeirir atynt yn Erthygl 6(3), Erthygl 8(1), Erthygl 9(1) a (2)(a))

### **PENNOD I**

#### **FFITRWYDD I DEITHIO**

1. Ni ddylid cludo unrhyw anifail oni bai ei fod yn ffit ar gyfer y daith arfaethedig, a dylid cludo pob anifail mewn modd sy'n sicr o beidio ag achosi anaf neu ddioddefaint diangen iddo.
2. Ni ystyrir bod anifeiliaid ag anaf neu sy'n dangos gwendid ffisiolegol neu brosesau patholegol yn ffit i'w cludo yn enwedig:
  - (a) Anifeiliaid sy'n methu symud yn annibynnol heb boen na cherdded heb gymorth;
  - (b) Anifeiliaid â chlwyf agored difrifol, neu lithriad (prolapse);
  - (c) Anifeiliaid beichiog y mae 90% neu fwy o'u cyfnod beichiogrwydd disgwylidig eisoes wedi mynd heibio neu anifail sydd wedi rhoi genedigaeth yn yr wythnos flaenorol.
  - (d) Mamaliaid newydd-anedig nad yw eu bogail wedi gwella'n llwyr;
  - (e) Moch o dan dair wythnos oed, ŵyn o dan wythnos oed a lloi o dan ddeg diwrnod oed, oni bai eu bod yn teithio llai na 100km;
  - (f) Cŵn a chathod o dan wyth wythnos oed oni bai eu bod yn teithio gyda'r fam;
  - (g) Ceirw sy'n bwrw eu melfed.
3. Er hynny, gellir ystyried anifeiliaid sy'n sâl neu wedi'u hanafu yn ffit i'w cludo:
  - (a) Os na fydd anaf neu salwch nad yw'n ddifrifol yn achosi dioddefaint ychwanegol; os oes amheuaeth, dylid gofyn am gyngor milfeddygol;
  - (b) Os cânt eu cludo at ddibenion Cyfarwyddeb 86/609/EEC 1 y Cyngor a bod y salwch neu'r anaf yn rhan o raglen ymchwil;
  - (c) Os cânt eu cludo o dan oruchwyliaeth filfeddygol neu'n dilyn triniaeth neu ddiagnosis milfeddygol.  
Er hynny, dim ond os na achosir cam-drin neu ddioddefaint diangen i'r anifeiliaid dan sylw y caiff cludiant o'r fath ei ganiatáu;

(d) Anifeiliaid a dderbyniodd driniaethau milfeddygol fel rhan o weithgaredd ffermio fel digornio neu ysbaddu, cyhyd â bod y clwyfau wedi gwella'n llwyr.

4. Os yw anifeiliaid yn mynd yn sâl neu'n cael eu hanafu wrth gael eu cludo, dylid eu gwahanu rhag anifeiliaid eraill a rhoi triniaeth gymorth cyntaf iddynt cyn gynted ag sy'n bosibl. Dylent gael triniaeth filfeddygol briodol ac os oes angen, eu lladd mewn ffordd nad yw'n achosi unrhyw ddiodefaint diangen iddynt.

5. Ni ddylid rhoi tawelyddion i anifeiliaid sydd i'w cludo oni bai bod angen gwirioneddol er mwyn sicrhau lles yr anifeiliaid a dim ond o dan oruchwyliaeth filfeddygol y dylid eu defnyddio.

<sup>1</sup> OJ L 358, 18.12.1986 t. 1. Cyfarwyddeb fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb 2003/65/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ L 230, 16.9.2003, t. 32).

6. Os caiff gwartheg, defaid a geifr sy'n llaetha eu cludo heb eu hepil, ni ddylid eu gadael dros 12 awr heb eu godro.

7. Nid yw gofynion paragraffau 2(c) a 2(d) yn berthnasol i geffylau cofrestredig os mai diben y teithiau yw gwella amodau iechyd a lles anifeiliaid sy'n rhoi genedigaeth, nag i ebolion newydd-anedig gyda'u cesyg cofrestredig, cyhyd â bod gofawlwr yn teithio gyda'r anifeiliaid yn barhaol i edrych ar eu holau nhw'n unig yn ystod y daith.

## **2 Egluro 'Ffitrwydd i Deithio'**

2.1 Mae'r Rheoliad yn rhestru rhai amgylchiadau penodol pan na fydd anifeiliaid yn ffit i deithio ac mae'n rhoi cyfarwyddyd ar gyfer amgylchiadau eraill. Y testun mewn italeg du isod yw'r testun cyfreithiol gwreiddiol a daw'r cyfarwyddyd ar ei ôl.

***1. Ni ddylid cludo unrhyw anifail oni bai ei fod yn ffit ar gyfer y daith arfaethedig; a dylid cludo pob anifail mewn modd sy'n sicr o beidio ag achosi diodefaint diangen iddo.***

2.2 Dylai pob anifail fod yn ffit ar gyfer y daith arfaethedig. Dylai'r anifeiliaid fod yn iach, heb unrhyw glwyfau sylweddol, ac yn gallu cerdded ar bob coes yn ddi-boen. Dylai anifeiliaid sy'n ddigon iach allu gwrthsefyll straen y daith heb brofi unrhyw boen neu ofid diangen a dylent gyrraedd pen draw'r daith yn iach. **Ni ddylid cludo anifeiliaid nad ydynt yn ffit ar gyfer y daith arfaethedig.**

## **3 Anifeiliaid nad ydynt yn ffit i deithio**

3.1 Er nad yw'n bosibl darparu rhestr gyflawn o bob cyflwr a allai olygu nad yw anifail yn ffit i deithio, mae unrhyw anifail sy'n dioddef o un neu fwy o'r canlynol yn annhebygol iawn o fod yn ffit ar gyfer unrhyw daith.

- Unrhyw gyflwr sy'n achosi i'r anifail gollu pwysau (yn enwedig colli pwysau cronig)
- Unrhyw gyflwr ar y system dreulio sy'n peri chwydu mynych neu ddolur rhydd
- Unrhyw gyflwr sy'n achosi anawsterau anadlu.
- Unrhyw gyflwr sy'n amlwg yn effeithio ar y ffordd y mae'r anifail yn arfer cerdded.
- Unrhyw gyflwr sy'n rhwystro'r anifail rhag bwyta neu yfed.
- Unrhyw gyflwr sy'n peri i'r anifail fod yn isel ei ysbryd, yn nerfus neu'n ymosodol.
- Unrhyw gyflwr sy'n achosi nychdod (clafychu) neu dymheredd (twymyn).
- Ni ddylid cludo anifeiliaid sy'n dioddef o glefydau heintus.

3.2 Yn ychwanegol, ni ddylai defaid wedi'u cneifio deithio mewn tywydd oer, yn enwedig rhwng Tachwedd a Mawrth rhag peri dioddefaint diangen.

## ***2. Ni ystyrir bod anifeiliaid ag anaf neu sy'n dangos gwendid ffisiolegol neu brosesau patholegol yn ffit i deithio.***

3.3 Ni fydd unrhyw anifail sy'n dangos arwydd ei fod yn dioddef o unrhyw wendid cyffredinol neu glefyd yn ffit i deithio. Gallai arwyddion gynnwys nychdod, ysgôth, symud afrosgo, neu anawsterau anadlu amlwg, ond ceir nifer o gyflyrau eraill a allai olygu nad yw anifail yn ffit.

3.4 Mae'r ddeddfwriaeth yn disgrifio cyflyrau penodol sy'n dangos nad yw'r anifail yn ffit i'w gludo:

### ***(a) Nid yw'n gallu symud yn annibynnol heb boen na cherdded heb gymorth***

3.5 Rhaid i'r anifail allu cerdded yn rhydd a heb gymorth ar bob un o'i goesau heb angen dim mwy na'r anogaeth arferol. Mae unrhyw anifail sy'n dangos arwyddion o gloffni yn debygol o fod mewn poen ac ni ddylid ei gludo, ac eithrio at ddibenion gwneud diagnosis neu roi triniaeth filfeddygol. Fel rheol ni ddylid gwthio neu lusgo anifail, ac ni ddylid defnyddio cyfarpar peiriannol i'w lwytho ar gerbyd (ac eithrio tinbrennau niwmatig, ond rhaid i'r anifail gerdded arnynt heb gymorth) oni bai bod manteision clir i les yr anifail. Fel arfer gellir gweld os yw anifail yn gloff drwy gadw llygad ar yr anifail, neu drwy gymharu'r anifail ag anifeiliaid eraill yn y grŵp.

3.6 Mae cloffni'n gyflwr cyffredin mewn da byw. **Ychydig iawn o amgylchiadau a geir lle nad yw cloffni'n gyflwr poenus.** Yn gyffredinol felly, ni ddylid cludo unrhyw anifail sy'n gloff yn un neu fwy o'i goesau.

3.7 Ni ddylid cludo ceffylau â chloffni poenus, oni bai eu bod yn cael eu symud i filfeddygfa am driniaeth neu ddiagnosis. Er hynny, gall peth cloffni ddeillio o resymau anorganaid neu beiriannol ac efallai na fydd yn peri poen.

Cyn ystyried cludo ceffylau â chloffni anorganaidd, gofynnwch i filfeddyg arbenigol am gyngor. Dylai unrhyw geffyl sy'n cael ei gludo fod yn ddigon sad ar ei bedair coes i gynnal ei bwysau ei hun a'i gydbwysedd drwy gydol y daith; ni ddylai teithio achosi unrhyw boen na gofid i'r anifail.

3.8 Mae llid llafnog (laminitis), neu lid y meinwe meddal sy'n leinio corn y carn, yn gyflwr cyffredin mewn merlod. Gall fod yn ysgafn neu'n ddifrifol ac yn boenus eithriadol. Ni ddylid cludo merlod sy'n dioddef o lid llafnog poenus. Bydd merlod sy'n dioddef o ffurf ysgafn o'r llid yn ffit i'w cludo ar deithiau byr yn unig, a hynny o dan gyfarwyddyd milfeddygol, ac ni ddylid eu cludo'n rheolaidd.

3.9 Bydd angen gwella'r amodau teithio ar gyfer cludo anifail cloff. Fel arfer bydd angen cau'r anifail mewn lloc ar ei ben ei hun, sicrhau bod y llawr yn cynnig digon o afael i'r traed, darparu digon o le i'r anifail orwedd, gosod sarn dwfn cyfforddus, a dylai'r gyrrwr gymryd gofal arbennig i osgoi newid cyflymder neu gyfeiriad yn sydyn rhag i'r anifail gollu ei gydbwysedd.

3.10 Gall brwyliaid gael cytiau ar eu traed sy'n fach neu'n fwy difrifol a phoenus. Dylid asesu iechyd y droed a'r goes cyn cludo dofednod. Nid yw adar sy'n dioddef o gyflyrau difrifol a phoenus fel necrosis gwadnol dwys yn ffit i deithio.

### **(b) Anifeiliaid â chlwyf agored difrifol neu lithriad (prolapse)**

3.11 Ni ddylid cludo anifeiliaid sydd ag unrhyw glwyfau i mewn i un o geudodau'r corff, fel y frest neu'r abdomen neu'r afl. Os yw clwyf yn gwaedu, neu wedi troi'n llidus, ni fydd yr anifail yn ffit i deithio. Ni fydd anifail yn ffit i deithio os oes ganddo unrhyw glwyf arall o faint ar y croen sy'n gwaedu (ac eithrio niwed i dagiau clust wrth lwytho da byw). I anifeiliaid â chlwyfau sy'n gwella neu sy'n cael eu trin gan filfeddyg, os yw'r clwyf yn fach, bron â gwella, heb fod yn llidus na'n achosi poen i'r anifail, yna gallai'r anifail fod yn ffit i deithio. Os rhoddir sylw gofalus i'r amodau teithio, gallai anifeiliaid â chlwyfau mwy o faint fod yn ffit i deithio os yw'r clwyfau wedi'u diogelu a'u rhwymo'n addas rhag iddynt waethygu yn ystod y daith.

3.12 Ni ddylid cludo adar â chlwyfau ar y croen, neu unrhyw glwyf sy'n mynd yn ddyfnach i'r meinweoedd neu geudodau'r corff. Nid yw aderyn sy'n dioddef llithriad abnormal o'r meinweoedd o gwmpas y rhefr (cloaca) yn ffit i deithio.

3.13 Mae llithriadau'n digwydd pan fo organau a meinweoedd y corff yn symud o'u lle o fewn un o geudodau'r corff. Gall y llithriad fod yn 'fewnol' e.e. llithriad yr arffed neu linyr y bogail, lle bydd meinwe'r llithriad wedi'i orchuddio gan haen o groen di-dor ac ni fydd dim i'w weld ond chwydd abnormal oddi tano. Mae llithriad rhesrol neu weiniol yn 'allanol'; mae'r meinwe sydd wedi llithro'n agored i'r amgylchedd. Oni bai bod y llithriad yn fychan, ni fydd anifail â llithriad allanol yn ffit i deithio, gan y gallai'n hawdd cael ei niweidio ar y daith. Gallai anifail â llithriad mewnol fod yn ffit i deithio os nad yw'n peri poen a'i fod yn annhebygol o

waethygu neu gael ei niweidio yn ystod y daith. Ni ddylid cludo anifeiliaid â llithriadau rhwygedig. Yn achos da byw, dylid gwneud ymdrech i gywiro llithriad allanol ddigon o amser cyn symud yr anifail. Dim ond mewn amgylchiadau cyfyngedig y dylid cludo anifail sy'n dioddef o lithriad - fel arfer, i'w drin neu ei ladd. Rhaid i'r llithriad fod yn fach, yn ddi-boen, heb fod yn gwaedu, ac wedi'i ddiogelu yn ystod y daith, er enghraifft drwy gau'r anifail mewn lloc ar ei ben ei hun a gosod sarn dwfn ar ei gyfer.

***(c) Anifeiliaid beichiog y mae 90% neu fwy o'u cyfnod beichiogrwydd disgwylidig eisoes wedi mynd heibio neu anifail sydd wedi rhoi genedigaeth yn yr wythnos flaenorol.***

3.14 Nid yw anifeiliaid yn ystod 10% olaf eu cyfnod beichiogrwydd, neu sydd wedi rhoi genedigaeth yn ystod yr wythnos flaenorol yn ffit i deithio na chael eu danfon i farchnad. Felly, os yw'r cyfnod beichiogrwydd disgwylidig yn 150 diwrnod, ni ddylid cludo'r anifail yn ystod 15 diwrnod olaf y beichiogrwydd. Dyma enghreifftiau o gyfnodau beichiogrwydd cyfartalog: gwartheg - 270 diwrnod; defaid - 150 diwrnod; moch - 116 diwrnod; cesyg rhwng 305 a 360 diwrnod; cŵn a chathod - 60-65 diwrnod.

3.15 Gall fod yn anodd asesu pryd mae 90% o'r cyfnod beichiogrwydd disgwylidig wedi mynd heibio. Dylai'r dyddiad fod ar gael gan y ceidwad, neu mewn cofnod o ddyddiadau cenhedlu, a dylai cludwr edrych i weld os nad yw'n siŵr. Os oes amheuaeth, gofal sy'n dod gyntaf. Fel arall, bydd anifeiliaid yn dangos newidiadau amlwg pan fyddant ar fin rhoi genedigaeth. Mae'r rhain yn cynnwys 'cadeiriau'n llenwi' neu gynnydd ym maint y chwarennau tethol; llaeth yn gollwng o'r tethau; gïau'r pelfis yn llacio; ysfa nythu a newidiadau ymddygiadol eraill; a llif yn gollwng o'r wain. Ni ddylai anifail deithio os yw'n dangos unrhyw un o'r arwyddion hyn.

3.16 Mae'n bosibl i gaseg esgor cyn iddi gyrraedd 90% o'r cyfnod beichiogrwydd disgwylidig. Mewn sefyllfa o'r fath, bydd angen arfer doethineb, ac ystyried, er enghraifft, a yw'r anifail wedi cael beichiogrwydd byr o'r blaen. Os yw caseg yn dangos arwydd ei bod ar fin rhoi genedigaeth nid yw'n ffit i deithio.

3.17 Ni ddylid cludo unrhyw anifail sydd newydd roi genedigaeth am 7 diwrnod wedi'r enedigaeth.

3.18 Nid yw'r ddarpariaeth hon yn berthnasol i wartheg cyflo sydd wedi cael canlyniad positif i brawf twbercwlosis neu unrhyw anifeiliaid eraill sydd angen eu difa'n orfodol gan Iechyd Anifeiliaid (IA) (y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol o'r blaen) am resymau'n ymwneud ag iechyd anifeiliaid. Caniateir symud anifeiliaid o'r fath o dan oruchwyliaeth IA. Dylid rhoi sylw dyladwy i les anifeiliaid beichiog wrth eu cludo ac efallai y bydd angen gwella'r amodau teithio. Er hynny, rhaid osgoi symud anifeiliaid sy'n debygol o roi genedigaeth yn fuan nes i'r anifail orffen rhoi genedigaeth a dod yn ddigon ffit ar gyfer y daith arfaethedig.



**(d) Anifeiliaid newydd-anedig nad yw eu bogail wedi gwella'n llwyr;**

**(e) Moch o dan dair wythnos oed, wŷyn o dan wythnos oed a lloi o dan ddeg diwrnod oed, oni bai eu bod yn teithio llai na 100km;**

3.19 Rhaid i fogail mewnol ac allanol anifeiliaid ifanc fod wedi gwella'n llwyr cyn y gellir eu cludo. Mae'r amser gwella'n amrywio o un rhywogaeth i'r llall. Bydd y bogail allanol wedi gwella os yw llinyn y bogail yn sych a chrebachlyd a'r croen allanol oddi tano wedi gwella'n llwyr, gan adael dim tyllau. Fel y soniwyd uchod, dim ond ar deithiau byr o lai na 100km y gellir cludo mathau arbennig o dda byw ifanc nes eu bod wedi cyrraedd oeddrannau penodol, er bod amodau arbennig ar gyfer ffermwyr sy'n cludo eu hanifeiliaid eu hunain ar deithiau byr.

3.20 Os yw gwartheg, mamogiaid neu eifr sy'n llaetha yn cael eu cludo heb eu hepil, ni ddylid eu gadael dros 12 awr heb eu godro.

3.21 Ceir eithriad penodol o'r gofyniadau uchod i **geffylau cofrestredig** "os mai diben y daith yw gwella amodau iechyd a lles anifeiliaid sy'n rhoi genedigaeth". Dim ond i ebolion newydd-anedig gyda'u cesyg cofrestredig y mae hyn yn berthnasol "cyhyd â bod gofalwr yn teithio gyda'r anifeiliaid yn barhaol i edrych ar eu holau nhw'n unig yn ystod y daith." Felly caniateir symud cesyg yn drwm o ebolion, neu gesyg a'u hebolion newydd-anedig pan fo manteision clir i les yr anifeiliaid o'u symud. Gallai amodau gwell ar gyfer rhoi genedigaeth gynnwys stablau a chyfleusterau gwell o'u cymharu â'r tringle arferol; bod yn agosach at filfeddyg profiadol i'w alw mewn argyfwng; neu fod â staff mwy profiadol i gynorthwyo gyda'r enedigaeth.

3.22 Nid yw rheolau ffitrwydd i deithio yn Atodiad I o Reoliad yr UE 1/2005 yn gymwys i ffermwyr sy'n cludo'u hanifeiliaid eu hunain, yn eu cerbydau eu hunain, am bellter o lai na 50km o'u daliad (dylid nodi, er hynny, fod yr amodau cyffredinol ar gyfer cludo a restrwyd yn Erthygl 3 yn dal yn berthnasol). Golyga hyn y gall ffermwr gludo'i anifeiliaid beichiog iawn ei hun, ac anifeiliaid newydd-anedig dros bellterau byr rhwng neu o fewn safleoedd fferm cyfagos, neu wneud defnydd o gludwr i symud anifeiliaid, os mai'r diben yw gwella amodau rhoi genedigaeth. Er hynny, ni ddylid symud anifeiliaid beichiog os ydynt ar fin rhoi genedigaeth. Ni ddylai eu cludo achosi poen na dioddefaint diangen iddynt ac ni ddylid eu symud **ac eithrio am resymau'n ymwneud â gwella lles yr anifeiliaid oddeutu amser rhoi genedigaeth.**

**(f) Cŵn a chathod o dan wyth wythnos oed oni bai eu bod yn teithio gyda'r fam;**

3.23 Ni ddylid cludo cŵn a chathod o dan 8 wythnos oed oni bai eu bod yn teithio gyda'u mamau *a'i bod o fewn cyrraedd parhaol iddynt*. Nid yw'r gofyniad

hwn yn gymwys i gŵn a chathod sydd wedi'u hamddifadu os cânt eu cludo er mwyn diogelu eu lles. Hefyd, rhaid bod bogail cŵn a chathod bach wedi gwella, a'r llinyn yn sych a chrebachlyd, a'r croen wedi tyfu'n ôl yn llwyr, cyn y gellir ystyried eu cludo.

**(g) Ceirw sy'n bwrw eu melfed**

3.24 Nid yw ceirw sy'n bwrw eu melfed yn ffit i deithio. Digwydd hyn am gyfnod byr yn gynnar yn y tymor magu pan dyf croen fasgwlaidd iawn a elwir yn felfed dros gyrn ceirw gwrywaidd. Caiff y felfed ei fwrw oddeutu mis wedyn, pan ddaw'r anifeiliaid yn ffit unwaith eto.

**3. Er hynny, gellir ystyried anifeiliaid sy'n sâl neu wedi'u hanafu yn ffit i'w cludo:**

**(a) Os na fydd anaf neu salwch nad yw'n ddifrifol yn achosi dioddefaint ychwanegol; os oes amheuaeth, dylid gofyn am gyngor milfeddygol;**

3.25 Mewn rhai amgylchiadau caniateir cludo anifeiliaid sydd ag anaf neu salwch nad yw'n ddifrifol. Bydd penderfynu beth yw 'anaf neu salwch nad yw'n ddifrifol' yn anodd mewn llawer o achosion. Dylid ystyried pedwar peth:

- Dylai'r cyflwr fod yn ysgafn a phrin yn effeithio ar allu'r anifail i wrthsefyll y daith.
- Ni ddylai'r daith beri dioddefaint diangen i'r anifail ac ni ddylai ddioddef yn waeth na phe na bai'n teithio; ni ddylai'r cyflwr waethgu yn ystod y daith.
- Argymhellir bod anifail ag anaf neu salwch nad yw'n ddifrifol yn cael ei asesu gan filfeddyg cyn ystyried ei gludo. Gall milfeddyg roi barn ddeallus a chynghori ar sut i symud yr anifail a sut i wneud hynny.
- Os oes amheuaeth neu anghytundeb, byddai'n well peidio â chludo'r anifail.

3.26 Rhaid pwysu a mesur pob achos yn unigol, a lles yr anifail ddylai fod yn brif ystyriaeth. Os oes unrhyw amheuaeth, dylid gofyn barn milfeddyg. Ar ôl archwilio'r anifail, gall y milfeddyg gynghori ynghylch pa mor dderbyniol fyddai cludo'r anifail neu ddweud bod yr anifail yn ffit i'w gludo ar daith fer yn unig o wella'r amodau teithio er lles yr anifail. Fel arfer bydd anifeiliaid ag anaf neu salwch nad yw'n ddifrifol yn elwa o amodau teithio gwell, ac mewn llawer o achosion, bydd hynny'n *ofynnol*.

3.27 Mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn y caniateir cludo anifeiliaid ag anaf neu salwch nad yw'n ddifrifol. Gellir eu cludo i filfeddygfa er mwyn cael diagnosis neu driniaeth, ac mewn rhai achosion, gallai fod yn dderbyniol i'r anifeiliaid deithio'n uniongyrchol o fferm i'r lladd-dy agosaf i'w lladd yn syth. Byddai'r ddarpariaeth hon yn caniatáu i ffermwr gludo niferoedd bach o dda byw â chloffni *ysgafn i gymharol ddifrifol* yn uniongyrchol o'r fferm y dônt ohoni i ladd-

dy. Yn ogystal â sicrhau y bydd milfeddyg swyddogol y lladd-dy'n derbyn yr anifeiliaid dan sylw, rhaid i'r cludwr sicrhau ei fod yn bodloni gofynion ychwanegol yn ystod y daith er mwyn diogelu lles da byw sy'n gloff. Rhaid gwella'r amodau teithio ar gyfer anifeiliaid cloff: dylid gosod pob anifail cloff mewn lloc ar ei ben ei hun, gyda digon o le i orwedd, a digon o sarn dwfn cysurus; rhaid i'r cludwr symud yr anifeiliaid yn uniongyrchol o'r fferm i'r lladd-dy a dylid gyrru'n ofalus ar hyd y daith. Ym mhob amgylchiad, ni ddylai cludo anifeiliaid ag anaf neu salwch nad yw'n ddifrifol achosi unrhyw ddiodefaint diangen nac arwain at gam-drin y cyfryw anifeiliaid. Ni ddylid cludo anifeiliaid ag anaf neu salwch nad yw'n ddifrifol, yn cynnwys anifeiliaid cloff, i farchnad na'u cyflwyno i'w gwerthu mewn marchnadoedd.

***(b) Os cânt eu cludo at ddibenion Cyfarwyddeb 86/609/EEC 1 y Cyngor a bod y salwch yn rhan o raglen ymchwil;***

3.28 Cyfeiria hyn at gludo anifeiliaid a ddefnyddir mewn rhaglenni ymchwil meddygol yn unig. Mae'r amodau a amlinellir yn y cyfarwyddyd cyffredinol hwn yn berthnasol i gludiant pob anifail labordy yn cynnwys anifeiliaid sy'n rhan o weithdrefnau rheoledig o dan awdurdod y Ddeddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) (A(SP)A). Gellir awdurdodi esemptiadau o dan A(SP)A os oes angen gwyddonol dilys i symud anifeiliaid sy'n sâl neu wedi'u hanafu. Ni ddylid peri diodefaint neu anaf ychwanegol yn sgil cludo anifeiliaid o'r fath, a dylid rhoi sylw arbennig i'r gofal ychwanegol a allai fod yn angenrheidiol er mwyn diogelu eu lles. Dylai person cymwys gadarnhau fod anifeiliaid o'r fath yn ffit ar gyfer y daith arfaethedig.

3.29 Cyhoeddodd y Laboratory Animal Science Association argymhellion ar wahân (Laboratory Animals (2005)39) sy'n ymwneud â chludiant pob rhywogaeth labordy y bwriedir ei defnyddio mewn ymchwil.

***(c) Os cânt eu cludo o dan oruchwyliaeth filfeddygol neu'n dilyn triniaeth neu ddiagnosis milfeddygol. Er hynny, dim ond os na achosir cam-drin neu ddiodefaint diangen i'r anifeiliaid dan sylw y caiff cludiant o'r fath ei ganiatáu;***

3.30 Gellir cludo anifail i filfeddygfa pan fo'n sâl neu wedi'i anafu er mwyn gwneud diagnosis a / neu drin y cyflwr, neu ar gyfer ewthanasia, er y gallai fod yn fwy trugarog o ddifa anifail sâl heb ei symud. Yn gyntaf, dylid rhoi gwybod i'r milfeddyg fod yr anifail yn mynd i gael ei symud, a dylai ef neu hi roi cyngor ar y modd gorau o gludo'r anifail, os yn briodol. Gall milfeddyg roi cyngor ar sut i wella'r amodau teithio neu awgrymu defnyddio cyffuriau i leddfu poen neu feddyginiaethau eraill i wneud yr anifail yn fwy cysurus yn ystod y daith. Os nad yw anifail yn gallu cerdded yn annibynnol ar y cerbyd na'i godi'n ofalus iddo (os yn briodol h.y. anifeiliaid bach / ifanc y gellir eu codi'n hwylus) bydd angen galw milfeddyg allan i archwilio'r anifail yn ei gynefin.

3.31 Nid yw'n anarferol i geffylau gael eu cludo i filfeddygfa ar gyfer llawdriniaethau dydd cyffredin fel ysbaddu. Yn aml bydd yr anifail yn cael tawelyddion cryf neu anesthesia cyffredinol ar gyfer triniaethau o'r fath. Mewn rhai achosion, gall y cyffuriau a ddefnyddir barhau'n weithredol am oriau wedi'r driniaeth, ac effeithio ar gydbwysedd, osgo a chydsymud yr anifail. Os yw'r cludwr yn bwriadu dychwelyd yr anifail i'w gartref ar yr un diwrnod â'r llawdriniaeth, rhaid ei fod yn fodlon fod yr anifail wedi gwella digon o effeithiau anesthesia. Y milfeddyg fydd y person gorau i gynghori a yw'r anifail yn ffit i deithio. Dylid gwella'r amodau teithio er mwyn sicrhau nad yw iechyd yr anifail mewn perygl yn ystod y daith yn ôl. Os oes unrhyw amheuaeth ynghylch ffitrwydd yr anifail, byddai'n well ei gadw yn stabil y filfeddygfa nes y gellir ei ystyried yn ffit i deithio.

***(d) Anifeiliaid sydd wedi cael triniaethau milfeddygol fel rhan o arferion ffermio fel digornio neu ysbaddu, cyhyd â bod y clwyfau wedi gwella'n llwyr.***

3.32 Rhaid i unrhyw glwyfau yn sgil digornio, ysbaddu, llawdriniaeth i dorri cynffonau neu unrhyw driniaeth filfeddygol arall fel rhan o arferion ffermio fod wedi gwella'n llwyr cyn y gellir ystyried bod y cyfryw anifeiliaid yn ffit i deithio.

***4. Os yw anifeiliaid yn mynd yn sâl neu'n cael eu hanafu wrth gael eu cludo, dylid eu gwahanu oddi wrth anifeiliaid eraill a rhoi triniaeth cymorth cyntaf iddynt cyn gynted ag sy'n bosibl. Dylent gael triniaeth filfeddygol briodol ac os oes angen, eu lladd mewn ffordd nad yw'n achosi unrhyw ddioddefaint diangen iddynt.***

3.33 Mae angen i gludwyr archwilio'u hanifeiliaid yn rheolaidd trwy gydol y daith. Os gwelir bod anifail yn sâl neu wedi'i anafu, rhaid cymryd camau i'w rwystro rhag unrhyw ddioddefaint pellach. Os yn bosibl, dylid rhoi lloc neu gynhwysydd cludiant ar wahân i anifail sâl, gyda digon o le a sarn i orwedd, a lle na all anifeiliaid eraill aflonyddu arno.

3.34 Os yw'n briodol neu'n angenrheidiol rhoi triniaeth filfeddygol, dylid symud yr anifail a'i ddadlwytho yn y man addas agosaf lle gellir rhoi triniaeth filfeddygol iddo. Os nad yw'n briodol rhoi triniaeth, yna efallai mai ewthanasia neu ei ladd yn y lladd-dy agosaf yw'r unig ddewis. Rhaid rhoi'r camau hyn ar waith cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl ar ôl canfod y broblem.

3.35 Yn achos da byw, efallai mai dim ond ar ben draw'r daith arfaethedig y bydd yn bosibl rhoi'r camau hyn ar waith. Er hynny, wrth gyfiawnhau unrhyw benderfyniad i weithredu, rhaid i gludwr ystyried pob dewis sydd ar gael; er enghraifft, ble mae'r lladd-dy neu'r filfeddygfa agosaf; a all yr anifail dderbyn triniaeth argyfwng yno; sut orau i osgoi dioddefaint pellach? Iechyd a lles yr anifail dan sylw ddylai fod yr ystyriaeth bwysicaf bob amser.

**5. Ni ddylid rhoi tawelyddion i anifeiliaid oni bai bod gwir angen er mwyn sicrhau lles yr anifail a dylid eu defnyddio o dan oruchwyliaeth filfeddygol yn unig.**

3.36 Ni ddylid rhoi tawelyddion i anifeiliaid sy'n cael eu cludo heb fod rheswm da dros wneud hynny. Gallant leihau gallu'r anifail i ymdopi â straen teithio: Bydd anifeiliaid yn llai abl i reoli tymheredd y corff a gallai'r ansadrwydd a achosir gan lawer o dawelyddion beri bod mwy o berygl i'r anifail gwympto ac anafu ei hun.

3.37 Meddyginiaethau milfeddygol yw tawelyddion, mae iddynt gyfnodau cadw gorfodol o'r gadwyn fwyd, ac fel rheol ni fyddant yn addas i'w defnyddio ar anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd. Os mai dim ond pan fydd yr anifail o dan effaith tawelyddion y gellir ei gludo, dylid ystyried pa mor briodol yw ei symud o gwbl. Weithiau gellir cyfiawnhau defnyddio tawelyddion os oes manteision clir i les yr anifail sy'n gorbwyso unrhyw beryglon cysylltiedig â'u defnyddio. Dylai'r milfeddyg sy'n rhagnodi'r cyffur roi cyfarwyddyd clir, gan egluro beth yw peryglon a sgil-ffeithiau tawelyddion.

3.38 Fel rheol ni ddylid rhoi tawelyddion i geffylau ar gyfer eu cludo. Ceir dau eithriad i'r rheol gyffredinol hon. Yn gyntaf, bydd gweision stabil sy'n teithio gyda cheffylau ar long neu awyren fel arfer yn cario rhywfaint o dawelyddion. Ni ddylid ei ddefnyddio ond mewn argyfwng os yw ymddygiad ceffyl yn gwaethygu i'r fath raddau fel ei fod yn peryglu iechyd a diogelwch anifeiliaid eraill neu bobl. Ni ddylid ystyried bod ceffylau'n ffit i deithio os yw'n wybyddus eu bod yn mynd yn anghyfforddus wrth deithio a'n dangos ymddygiad anwadal yn rheolaidd. Yn ail, weithiau symudir merlod gwyllt o ardaloedd mynyddig neu rostir anghysbell i lefydd lle gellir gofalu amdanynt yn well. Mae cludo anifeiliaid o'r fath yn waith arbenigol iawn a dylid ceisio cyngor arbenigol. Weithiau, defnyddir tawelyddion i dawelu merlen afreolus sy'n beryglus iddi ei hun neu i anifeiliaid eraill a phobl. Ym mhob achos, dylid gofyn i filfeddyg am y tawelyddion a'u defnyddio o dan ei gyfarwyddyd ef neu hi. Dylai'r anifail sy'n derbyn dos fod o dan ofal y milfeddyg.

3.39 Fel rheol ni ddylid defnyddio tawelyddion fel bod cŵn a chathod yn gallu teithio, oni bai fod manteision penodol i les yr anifail, a chyhyd â bod y peryglon wedi'u hystyried, a'r tawelyddion wedi'u rhagnodi gan filfeddyg yr anifail.

#### **4 Gwella amodau teithio a chynlluniau wrth gefn**

4.1 Mae'n bwysig gwybod sut i wella'r amodau teithio. Bydd anifeiliaid sy'n cael profiad o deithiau o ansawdd gwell yn aml yn goddef straen teithio'n well ac yn cyrraedd pen y daith mewn cyflwr gwell. Os nad yw anifail yn hollol ffit, oherwydd salwch neu anaf nad yw'n ddifrifol o bosibl, bydd gwella'r amodau teithio'n fanteisiol ac mewn rhai achosion yn angenrheidiol.

4.2 Bydd y grwpiau canlynol o anifeiliaid yn elwa'n arbennig o wella'r amodau teithio:

- anifeiliaid ag anaf neu salwch nad yw'n ddifrifol;
- anifeiliaid ar deithiau hir;
- anifeiliaid sy'n mynd yn sâl neu'n cael anaf yn ystod taith;
- anifeiliaid sy'n cael eu cludo i filfeddygfa i dderbyn triniaeth neu ddiagnosis;
- anifeiliaid hen neu ifanc;
- anifeiliaid beichiog;
- anifeiliaid ar unrhyw daith arall lle mae'r amodau teithio'n her.

4.3 Gellir gwella'r amodau teithio mewn sawl ffordd. Nid yw'r gyfraith yn disgrifio mesurau penodol sy'n rhaid eu gweithredu. Awgrymiadau yw'r camau y manylir arnynt isod, ac nid ydynt yn disgrifio pob mesur defnyddiol y gellid ei fabwysiadu. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, dylai cludwyr benderfynu pa fesurau sy'n bosibl eu cyflawni a pha fesurau fydd o fantais wirioneddol i'r anifail.

- addasu'r awyru'n briodol â slotiau awyru addasadwy;
- osgoi gadael y cerbyd llonydd ar ddiwrnodau poeth neu glòs: cadw'r cerbyd i symud er mwyn helpu'r aer i symud dros yr anifeiliaid;
- parcio'r cerbyd mewn cysgod bob amser ac ar ongl rhag y gwynt;
- lleihau'r dwysedd stocio / cynyddu faint o le i'w neilltuo;
- darparu sarn cyfforddus neu sarn ychwanegol;
- ynysu'r anifail rhag anifeiliaid eraill mewn lloc ar ei ben ei hun;
- bydd angen stâl ar eu pennau eu hunain ar geffylau neu ferlod nad ydynt yn hollol ffit;
- gosod yr anifeiliaid mewn llociau i ffwrdd o rannau poethaf neu oeraf y cerbyd: fel rheol bydd y tymheredd ar ei boethaf ar y lloriau uchaf yn y blaen; ac fel rheol bydd y tymheredd ar ei oeraf ar y lloriau isaf yn y cefn;
- teithio yn ystod adegau llai poeth o'r dydd neu yn ystod y nos;
- darparu bwyd a dŵr addas mor aml ag sy'n angenrheidiol er lles yr anifail; yn ddelfrydol dylai'r anifail fod yn gyfarwydd â'r bwyd – ni argymhellir newid y deiet;
- dylid cynnig dŵr i anifeiliaid ifanc (yn enwedig lloi) nad ydynt yn bwyta brasfwyd, ynghyd ag electrolyt; os cynigir llaeth gosod, dylai fod o'r un cyfansoddiad ag y mae'r llo'n arfer ei gael;
- archwilio'r anifeiliaid yn amlach;
- addasu maint y grwpiau;
- gwahanu anifeiliaid afreolus, nerfus neu ymosodol;
- defnyddio meddyginiaethau milfeddygol addas: cyffuriau i leddfu poen (analgesia); gwrthfotig; therapi hylifau o dan gyfarwyddyd milfeddyg;
- defnyddio rhwymau i orchuddio a diogelu clwyfau;
- defnyddio sblintiau i gynnal coesau wedi'u hanafu;
- ystyried a yw cyflwr yr anifail yn galw am ewthanasia neu ei ladd ar unwaith heb ei gludo ymhellach, neu ystyried a ellir symud yr anifail. Ble mae'r lladd-dy neu'r filfeddygfa agosaf?

## 5 Cynllunio teithiau a chynlluniau wrth gefn

5.1 Ceir llawer o amgylchiadau lle bydd cynlluniau teithio'n newid am resymau annisgwyl nad ydynt yn fai ar y cludwr. Gall tagfeydd traffig beri oedi difrifol; gall tywydd garw beri oedi i longau fferi; a gall anafiadau i anifail yn ystod y daith beri oedi os oes galw am sylw'n ddiymdroi.

Gall newidiadau yn y tymheredd olygu ei bod hi naill ai'n annoeth neu'n anghyfreithlon cludo anifeiliaid. Yn aml, bydd oedi'n digwydd mewn mannau archwilio ar ffiniau gwledydd. Hefyd gall cynlluniau teithio newid yn sgîl cyfyngiadau cenedlaethol neu leol ar symud anifeiliaid, lle ceir achosion o glefydau. Os yw'n hysbys cyn cychwyn taith fod problemau'n debygol o godi - er enghraifft, lle mae disgwyl oedi difrifol i groesi mewn fferi, dylai'r cludwr ystyried a yw'r cynllun teithio gwreiddiol yn dal yn briodol. Efallai y byddai'n well gohirio'r daith cyn ei chychwyn neu ymchwilio ffordd arall o gyrraedd pen y daith.

5.2 Hefyd gall problemau annisgwyl godi ar ôl i'r daith gychwyn. Dylai fod gan gludwyr gynlluniau wrth gefn ar gyfer digwyddiadau o'r fath. Dylid datblygu'r cynlluniau hyn cyn i'r daith gychwyn. Bydd cynlluniau wrth gefn hyd yn oed yn fwy priodol os yw'r daith sy'n cael ei chynllunio'n hir neu'n gymhleth gan fod mwy o berygl y bydd problemau'n codi. Dylid rhoi'r cynllun wrth gefn ar waith lle bynnag y bydd problem yn codi a bod angen cymorth ychwanegol ar y cludwr. Nid oes patrwm sefydlog i gynllun o'r fath. Ar ei symlaf, dylai fod gan y gyrrwr ffôn symudol a rhif ffôn person neu sefydliad allweddol y gellir cysylltu â nhw am gyngor mewn argyfwng. **Mae'n amod awdurdodiad fod cynlluniau wrth gefn gan bob cludwr sy'n mynd ar daith hir.** Isod, ceir rhai awgrymiadau ynghylch pa wybodaeth a chymau i'w hymgorffori mewn cynllun wrth gefn. Dylid cadw'r manylion hyn gyda'i gilydd a'u marcio'n briodol fel bod modd i'r gyrrwr neu e.e. y gwasanaethau argyfwng, gael gafael arnynt yn hawdd.

- Cadw manylion cyswllt ar gyfer y gwasanaeth milfeddygol gwladol; milfeddyg preifat; awdurdod lleol; ceidwad/perchennog yr anifeiliaid; lladd-dai a lladdwyr lleol; RSPCA; y Gymdeithas Lladd Trugarog (Humane Slaughter Association).
- Manylion cyswllt a chyfeiriadau man cychwyn a phen y daith a chyfeiriad y busnes cludiant.
- Cadw manylion cyswllt mannau aros lle gellir dadlwytho, bwydo neu roi dŵr i'r anifeiliaid os bydd angen.
- Cadw manylion cyswllt ar gyfer cwmnïau fferi os yw'r daith yn cynnwys mordaith.
- Cario mapiau neu systemau llywio lloeren sy'n ei gwneud hi'n bosibl i gynllunio ffyrdd eraill o gyrraedd pen y daith.
- Cario digon o fwyd a dŵr addas i'r anifeiliaid yn y cerbyd.
- Cadw lle a llociau yn y cerbyd er mwyn gwahanu anifeiliaid sy'n mynd yn sâl neu'n cael anaf yn ystod y daith.
- Gallai pecyn cymorth cyntaf fod yn ddefnyddiol mewn rhai amgylchiadau.

## Pwyntiau hanfodol i'w cofio

**1 Os ydych chi'n cludo anifeiliaid eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eu bod yn ffit i deithio**, er y gallai fod pobl gymwys a chyfrifol eraill (e.e. perchennog yr anifail) yn rhan o asesu ffitrwydd yr anifail i deithio.

**2 Mae asesu ffitrwydd yn broses barhaus y dylid ei harfer trwy gydol y daith**, ac nid rhywbeth y dylid ei wneud unwaith ar ei chychwyn. Gall cyflwr anifail newid yn sydyn yn ystod y daith, a gallai anifail a oedd yn ffit ar ei chychwyn beidio â bod yn ffit yn nes ymlaen ar y daith, a hynny am amryw o resymau. Dylai gyrwyr wneud yn fawr o'r cyfle a gânt wrth aros i orffwys neu fynd i'r tŷ bach neu doriadau eraill yn y daith i archwilio eu hanifeiliaid.

**3 Os oes amheuaeth neu anghydweld ynglŷn â ffitrwydd anifail neu grŵp o anifeiliaid, cynghorir cludwyr yn gryf i gael barn broffesiynol milfeddyg cyn cychwyn teithio** ac i ystyried a dilyn unrhyw gyngor a roddir. Efallai y bydd y cludwr yn dymuno cael **barn ysgrifenedig gan y milfeddyg**.

**4 Lle bernir bod anifeiliaid ag anaf neu salwch nad yw'n ddifrifol yn ddigon ffit i deithio, yn aml bydd angen darparu gwell amodau teithio ar gyfer y daith.**

## 5 Rhestr Wirio Ffitrwydd

- Dylai pob anifail fod yn ffit ar gyfer y daith arfaethedig
- Ni ddylid cludo anifeiliaid os ydynt yn sâl neu wedi'u hanafu.
- Gellir cludo anifeiliaid ag anaf neu salwch nad yw'n ddifrifol, ond dim ond os nad yw'r daith yn mynd i beri dioddefaint neu boen ychwanegol iddynt.
- Dim ond mewn amgylchiadau penodol y gellir cludo anifeiliaid ifanc.
- Dylai cludwyr roi pob mesur rhesymol ar waith i ddiogelu lles yr anifeiliaid y maent yn eu cludo.
- Personau sy'n gymwys i asesu iechyd yr anifeiliaid ddylai wneud hynny – os oes amheuaeth, dylid gofyn cyngor milfeddyg.
- Dylai rhaniadau'r cerbyd a'r anifeiliaid fod mewn cyflwr da a heb fod yn peri unrhyw anaf i'r anifeiliaid
- Dylai anifeiliaid sy'n mynd yn sâl neu'n cael anaf yn ystod taith dderbyn cymorth cyntaf addas neu driniaeth filfeddygol arall, neu gael eu lladd mewn argyfwng.
- Dylai fod gan yrwyr gynlluniau wrth gefn yn eu lle i ymdopi â phroblemau annisgwyl sy'n codi yn ystod y daith.